CYNLLUN IAITH GYMRAEG

CYMDEITHAS AMAETHYDDOL DYFFRYN CONWY

1. DATGANIAD

Mae Cymdeithas Amaethyddol Dyffryn Conwy ("Y Gymdeithas") wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal Sioe Wledig undydd, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Gymdeithas yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu digwyddiad undydd i'r cyhoedd yn ei ardal.

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith a gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd y Gymdeithas felly yn cynnig yr hawl i ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin ag ef.

Amcanion allweddol:

- Galluogi pawb sydd yn ymwneud a'r Gymdeithas, ac sydd yn cefnogi drwy ddarparu a chynnal y Sioe undydd, i drafod gyda'r Gymdeithas ac i gyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn.

- Bydd y Gymdeithas ar bob achlysur yn cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

- Bydd y Gymdeithas yn annog mudiadau oddi mewn i'r Gymuned sydd yn ymwneud a'r Sioe undydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

2. Y GYMDEITHAS

Mae'r Gymdeithas yn cynnwys gwirfoddolwyr, pob un ohonynt yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Mae'r ysgrifennydd cyffredinol yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn Iaith gyntaf, yn gallu delio gyda'r cyhoedd yn llafar ac yn ysgrifenedig yn ddwy iaith.

Prif swyddogaeth y Gymdeithas yw darparu a chynnal Sioe Wledig undydd yn y Gymuned sydd yn gofyn am gydweithrediad y Cyngor Sir, Cyngor Tref, yr Adran Priffyrdd, yr Heddlu, grwpiau cymdeithasol a chymunedol i hyrwyddo, datblygu ac i ymateb i anghenion lleol er budd y Gymuned.

Mae rhan fwyaf o'r mudiadau sydd wedi'u lleoli o fewn ardal y Gymdeithas yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys Capeli ac Eglwysi, Ysgolion, Merched y Wawr, Clwb Ffermwyr Ifanc a Chlwb Rygbi Nant Conwy.

3. CYNLLUNIO, CYFATHRBEU a CHYHOEDDUSRWYDD

Bydd y Gymdeithas yn:

- Asesu eu heffaith ieithyddol gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith. Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, gan symud at wireddu'r egwyddor o gydraddoldeb llawn.

- Sicrhau y bydd mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth ddarparu a chynnal y Sioe undydd.

- Bydd y Gymdeithas yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg ac yn Cyfathrebu o'r un safon uchel a'r un mor brydlon yn y ddwy iaith.

- Ni fydd ateb gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn achosi oedi.

- Os derbynnir gohebiaeth yn y Gymraeg, caiff ei ateb yn y Gymraeg.

- Yn dilyn sgwrs ffôn, neu gyfarfod lle sefydlwyd mai Cymraeg yw dewis iaith y person, yna fe anfonir gohebiaeth yn y Gymraeg.

- Dechreuir pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn ei dewis iaith lle bo hynny'n hysbys.

- Bydd y Gymdeithas yn gwneud trefniadau i gyfieithu gohebiaeth yn ôl yr angen er mwyn ateb llythyrau yn brydlon yn yr iaith wreiddiol.

- Bydd papur pennawd swyddogol y Gymdeithas yn Gymraeg neu dwyieithog fel bo'r galw.

- Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol a gweddill aelodau'r Gymdeithas yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg neu Saesneg.

- Pan ddaw swydd yr Ysgrifennydd yn wag, bydd y Gymdeithas yn ei hysbysebu gan nodi fod sgiliau dwyieithog yn hanfodol er mwyn i'r Gymdeithas allu cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd.

- Croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfarfodydd a gynhelir gan y Gymdeithas. Gwneir hyn yn glir yn y papurau sy'n galw neu'n hysbysebu'r cyfarfod.

- Mae cyfarfodydd y Gymdeithas yn cael eu cynnal yn uniaith Gymraeg.

- Bydd y cofnodion yn uniaith Gymraeg, ond darperir cyfieithiad os bydd galw

- Bydd y Gymdeithas yn ymateb yn newis iaith unrhyw ymholydd i geisiadau am wybodaeth sydd yn deillio o'r cofnodion, neu unrhyw ran o'r cofnodion.

- Mae mwyafrif Gwefan y Sioe yn ddwyieithog www.sioellanrwstshow.co.uk

- Bydd enw a chyfeiriad y Gymdeithas yn ymddangos yn Gymraeg ar bapur pennawd swyddogol, ac unrhyw ddeunydd cyhoeddus arall.

- Bydd deunydd cyffredinol yn hyrwyddo'r Sioe undydd e.e. bydd hysbysiadau yn y wasg a hysbysfyrddau a anelir at y cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

4. WYNEB CYHOEDDUS Y GYMDEITHAS A MONITRO

- Enw'r Gymdeithas yw "Cymdeithas Amaethyddol Dyffryn Conwy" gyda (Conwy Valley Agricultural Society) mewn cromfachau os bydd angen.

- Mae'r Gymdeithas eisoes wedi mabwysiadu delwedd gorfforaethol ddwyieithog.

- Yr Ysgrifennydd Cyffredinol fydd yn gyfrifol am weithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd o fewn y Gymdeithas.

- Yr Ysgrifennydd Cyffredinol fydd yn gyfrifol am drefnu cyfieithu Agenda a Chofnodion y Gymdeithas ac unrhyw lythyron unigol eraill lle bo'r galw.

- Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas fydd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun.

- Bydd y Gymdeithas yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun yn rheolaidd (bydd copi o'r polisi iaith ar wefan y Gymdeithas yn fuan).

Cysylltu â'r Gymdeithas

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun at sylw'r ysgrifennydd ar 01492642015.

WELSH LANGUAGE SCHEME

CONWY VALLEY AGRICULTURAL SOCIETY

1. STATEMENT

The Conwy Valley Agricultural Society ("The Society") has adopted the principle that, in holding a one-day Country Show, it will treat the Welsh language and the English language on the basis that they are equal. This plan sets out how the Association will implement that principle in providing a one-day event for the public in its area.

The Society recognises that members of the public can better express their views and needs in their preferred language. Enabling them to use their preferred language is a matter of good practice rather than tolerance and denying them the right to use their preferred language can put them in a disadvantageous position. The Society will therefore offer the right to choose which language to use in dealing with it.

Key objectives:

- Enabling everyone involved with the Society, and who supports by providing and hosting the one-day Show, to discuss with the Society and to contribute through the medium of Welsh or English according to the individual's personal preference.

- The Society will on all occasions support and promote the use of the Welsh language in the community.

- The Society will encourage organisations within the Community involved in the one-day Show to use Welsh.

2. THE SOCIETY

The Society is made up of volunteers, all of whom are bilingual with Welsh as the first language. The general secretary is bilingual with Welsh being a first language, able to deal with the public orally and in writing into two languages.

The main function of the Association is to provide and host a one-day Country Show in the Community which requires the co-operation of the County Council, Town Council, Department of Highways, Police, social and community groups to promote, develop and respond to local needs for the benefit of the Community.

Most of the organisations based within the Society's area operate through the medium of Welsh. This includes Chapels and Churches, Schools, Merched y Wawr, Young Farmers Club and Nant Conwy RFC.

3. PLANNING, COMMUNICATION and PUBLICITY

The Society will:

- Assess their linguistic impact while making sure they are consistent with the Language Plan. Promote and facilitate the use of the Welsh language whenever possible, moving to the realisation of the principle of full equality.

- Ensure that measures in the Plan will be implemented in the provision and conduct of the one-day Show.

- The Society will welcome correspondence in Welsh or English and Communicate in the same high standard and equally prompt in both languages.

- Replying to correspondence through the medium of Welsh will not cause delays.

- If correspondence is received in Welsh, it will be answered in Welsh.

- Following a telephone conversation, or meeting where it has been established that the person's preferred language is Welsh, then correspondence will be sent in Welsh.

- All correspondence with a member of the public will be initiated in their preferred language where known.

- The Society will make arrangements to translate correspondence as necessary in order to answer letters promptly in the original language.

- The Society's official letterhead will be in Welsh or bilingual as required. ·

- The General Secretary and the remaining members of the Association will welcome phone calls in English or Welsh. ·

- When the post of Secretary becomes vacant, the Society will advertise it stating that bilingual skills are essential so that the Society can offer a bilingual service to the public.

- Contributions in English or Welsh are welcome at meetings hosted by the Society. This is made clear in the papers calling or advertising the meeting.

- The Society's meetings are held in monolingual Welsh.

- The minutes will be monolingual, but a translation will be provided if called

- The Association shall respond in the preferred language of any enquirer to requests for information derived from the minutes, or any part of the minutes.

- The majority of the Show's Website is bilingual www.sioellanrwstshow.co.uk

- The name and address of the Society shall appear in Welsh on official letterhead, and any other public material.

- General material will promote the one-day Show e.g. press notices and billboards aimed at the public will be in English and in Welsh.

4. PUBLIC FACE OF SOCIETY AND MONITORING

- The Association is named “Cymdeithas Amaethyddol Dyffryn Conwy" with (Conwy Valley Agricultural Society) in brackets if necessary.

- The Society has already adopted a bilingual corporate image.

- The Secretary General shall be responsible for the day-to-day operation of the Scheme within the Association.

- The Secretary General shall be responsible for organising the translation of the Society's Agenda and Minutes and any other individual letters where demanded.

- The Secretary General of the Association will be responsible for monitoring the implementation of the Scheme.

- The Society will publicise the scheme regularly (a copy of the language policy will be on the Society's website shortly).

Contacting the Society
Any comments, complaints or suggestions related to the Plan should be directed to the secretary's attention on 01492642015.